

Cariad

Darlleniad 1: Mathew 6: 43-48

Darlleniad 2: Ioan 4: 7-16

O! Dduw ein Tad, clywsom pan oeddem yn ifanc iawn yr adnod ‘Duw cariad yw’. Prin y buasem wedi cymryd unrhyw sylw ohoni, oni bai am gariad y rhai a'i dysgodd inni. Diolchwn i ti amdanynt, ac am i ni gael cipolwg ar dy gariad trwyddynt hwy. Wrth i ni dyfu daethom i ddeall ystyr cariad, a'i fod yn golygu gofal, a gofalu.

Molwn di am dy gariad tuag atom, am dy ofal amdanom. Molwn di am i ti ein caru'n ddiwahân gan beri i'r haul godi ar y drwg a'r da ac i'r glaw ddisgyn ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Diolchwn i ti am ewyllysio'r gorau i bawb bob amser.

‘Prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom yw i Grist farw trosom, a ni eto'n bechaduriaid.’

Molwn di am i ti ein caru yn ddiarbed gan roi ‘dy unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol’. Molwn di am fod dy gariad tuag atom yn ddi-droi'n-ôl, ac i'th annwyl Fab ddangos hynny'n eglur i ni trwy ei aberth drosom ar y Groes:

‘Ymlaen y cerddaist, dan y groes a'r gwawd
Heb neb o'th du.
Cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam
Ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.’

Molwn di am fod dy gariad yn ddigyfnewid; ‘Duw y cariad nad yw'n oeri’ ydwyt. Wrth inni edrych ar y Groes gallwn ddweud drachefn gyda'r emynydd:

‘Fel fflamau angerddol o dân
Yw cariad f'Anwylyd o hyd;’

Cyffeswn, O! Dduw ein Tad, gyda llawer iawn o gywilydd, er i ti ein caru yn y fath fodd, fod ein cariad ni'n wahanol iawn i'th gariad

di. Mae ein cariad ni'n gwahaniaethu rhwng hwn ac arall; nid ydym yn medru ewyllysio'r gorau i bawb. O! Dad, maddau i ni. Mae ein cariad ni'n mynnu ein harbed ni o hyd; mae'n hunanol, ac ni allwn rannu a rhoi fel y gwnaethost ti. O! Dad, maddau i ni. Mae ein cariad yn medru troi'n ôl; byddwn mor aml yn methu â charu hyd yr eithaf. O! Dad, maddau i ni. Mae ein cariad mor gyfnewidiol; bydd weithiau'n gynnes ac yna mor oer, byddwn weithiau'n gryf ac yna'n wan. O! Dad, maddau i ni.

O! Dduw ein Tad, cynorthwya ni i edrych drachefn ar ein Harglwydd croeshoeliedig a gweld ynddo ef hyd a lled, uchder a dyfnder dy gariad tuag atom - 'Dy gariad cryf rho yn fy ysbryd gwan.'

Cynorthwya ni, O! Dad, i garu'r rhai sy'n ymwneud â ni ac i ofalu amdanynt. Ein hanwyliaid - O! cynorthwya ni i'w caru trwy ofalu'n fwy tyner amdanynt. Ein cymdogion - O! cynorthwya ni i'w caru hwy fel ni ein hunain. Ein cyd-Gristnogion, o sawl enwad a thraddodiad - cofiwn eiriau ein Harglwydd, 'Cerwch eich gilydd fel y cerais i chwi'. Ein gelynion - 'Cerwch eich gelynion, gweddiwch dros y rhai sy'n eich erlid'. Ni allwn wneud hyn, O! Arglwydd, ond trwy dy nerth a'th ras di dy hun.

Clyw ein gweddi dros bawb y mae angen diddanwch a nerth dy gariad disyfl arnynt. Cyflwynwn i'th sylw y rhai nad oes ganddynt adnabyddiaeth ohonot ti a'th gariad. Cyflwynwn i'th sylw y rhai nad oes ganddynt neb i'w caru. Cyflwynwn i'th sylw y rhai sy'n dioddef afiechyd o bob math, ac sy'n ofni'r dyfodol. Cyflwynwn i'th sylw y rhai sy'n galaru am eu hanwyliaid. Cyflwynwn i'th sylw y rhai sy'n dioddef newyn a thlodi ac anghyfiawnder. Cyflwynwn i'th sylw bawb sy'n ceisio ffordd cymod a chariad rhwng pobl â'i gilydd.

Dyro iddynt hwy a ninnau, O! Dad, diddanwch a nerth dy gariad a'r sicrwydd 'hwnnw na all angau nac einioes ... na'r presennol, na'r dyfodol ... na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth dy gariad yng Nghrist Iesu ein Harglwydd'.

Derbyn ein diolch, O! Dduw, am dy gariad, ac am dy ofal tymhorol a thragwyddol amdanom, trwy Iesu Grist. Amen.

Eric Jones